Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru (2) 2021/22

## COVID-19: Cymorth i Sefydliadau Celfyddydol (Refeniw)

Ebrill 2021

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Ynghylch Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru i'r Celfyddydau 4

Beth yw diben y gronfa hon? 5

Cymhwystra 6

Am faint allaf i wneud cais? 8

Cymorth Gwladwriaethol a Chymorthdaliadau Cyhoeddus 10

Terfynau amser 10

Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer cymorth? 10

Y 'Contract Diwylliannol' 11

Beth allaf i wneud cais amdano? 12

Beth yw'r meini prawf sy'n berthnasol i'r gronfa hon? 13

Beth yw'r broses ymgeisio? 14

Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb? 15

Pa dystiolaeth arall fydd yn ofynnol? 20

Adroddiadau diweddu 20

Manylion Banc 20

Trefniadau Llywodraethiant y Sefydliad 20

Ynghylch Cymorth Gwladwriaethol a Chymorthdaliadau Cyhoeddus 21

Beth os oes gen i gwestiwn? 24

Rhyddid gwybodaeth 25

Gweithdrefn Gwyno 25

Atal Twyll 25

Diogelu Data 25

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain a bydd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg os gofynnir amdani.

Os oes gennych unrhyw anghenion o ran mynediad ac rydych yn ystyried cyflwyno cais, gallwn helpu i sicrhau y cewch gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â ni ar grants@arts.wales i drafod sut y gallwn helpu.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru bolisi cyfle cyfartal ar waith.

## Ynghylch Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru i'r Celfyddydau

- Mae hon yn gronfa i sefydliadau celfyddydol yng Nghymru (rhai er elw ac nid er elw) y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt ac sy'n ceisio cynnal eu hunain hyd nes y gallant ailddechrau gweithgarwch hygyrch i'r cyhoedd yn 2021 a'r tu hwnt.
- Gallwch wneud cais am grant nad yw'n ad-daladwy o hyd at £1.5 miliwn i gynnal eich gweithgareddau hyd fis Medi 2021.
- Mae COVID-19 wedi effeithio ar lawer o sefydliadau. Ond mae'n bwysig i arian gael ei roi i'r rheiny sydd â'r angen mwyaf taer. Felly rydym yn gofyn ichi ystyried yn ofalus a ddylech wneud cais ar hyn o bryd i'r gronfa hon.
- Pecyn achub ac adferiad yw hwn sy'n ymwneud yn benodol ag effaith COVID-19. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnig cyfle i helpu i sicrhau newid trawsnewidiol i gyrhaeddiad ac effaith y celfyddydau a gyllidir ag arian y cyhoedd. Disgwylir ichi ymrwymo i'r 'Contract Diwylliannol' i hybu ffyrdd newydd o weithio a sicrhau mwy o amrywiaeth yn rheolwyr, gweithlu a rhaglennu'ch sefydliad.
- Disgwylir i sefydliadau fydd yn cael eu cynorthwyo trwy'r gronfa hon ddangos ymrwymiad blaengar i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru.
- Disgresiynol yw'r holl gymorth ariannol o'r gronfa hon ac mae'n debyg y bydd cystadleuaeth am y cyllid sydd ar gael. Nid yw cyflwyno cais yn gwarantu'r holl arian na rhan o'r arian mae arnoch ei angen.
- Bwriedir i'r broses fod yn llai manwl ac yn gyflym. Ein nod yw ymdrin â cheisiadau cyn pen 6 wythnos ar ôl y terfyn amser. Os yw nifer y ceisiadau a gawn yn golygu nad oes modd gwneud hyn, byddwn yn rhoi gwybod ichi cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Ar ôl Medi 2021 bydd yn ofynnol ichi gyflwyno Adroddiad Diweddu byr yn cadarnhau sut y defnyddiwyd yr arian. Bydd yr Adroddiad Diweddu hwn yn ysgogi unrhyw daliad terfynol o'ch dyfarniad. Bydd hefyd yn ofynnol ichi adrodd ar sut yr ydych wedi cyflawni'r 'Contract Diwylliannol' yn 2022.
- Mae'n rhan o Gronfa Adferiad Diwylliannol 2 gyffredinol Llywodraeth Cymru o hyd at £30 miliwn.

## Beth yw diben y gronfa hon?

Lluniwyd y gronfa hon i helpu sefydliadau i gadw i fynd yn ystod cyfnod o bwysau ariannol dwys oherwydd COVID-19. Rydym hefyd yn cydnabod bod y cyfyngiadau parhaus ar ailddechrau gweithgarwch oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol yn ychwanegu at yr ansicrwydd. Prif ddiben y gronfa hon yw helpu i fynd i'r afael â'r pwysau hyn.

Bydd y gronfa'n ystyried cymorth i fusnesau o bob maint sy'n cyflogi staff, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol. Gall sefydliadau sydd angen cymorth i dalu costau cyfalaf gwneud lleoliadau a chyfleusterau'n ddiogel rhag COVID-19 wneud cais i'r cynllun hwn am fwyafswm o £5,000 tuag at gostau cyfalaf.

Ni allwn gynorthwyo pawb, felly bydd y gronfa'n cael ei thargedu at y rheiny sy'n cynnal ac yn hybu gweithgarwch celfyddydol hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru. Rhoddir sylw arbennig i'r rheiny sy'n profi pwysau ariannol sylweddol.

Ni fydd y cyllid yn dyblygu'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes, arian sydd ar gael i awdurdodau lleol trwy'r Cyllid Caledi Llywodraeth Leol nac unrhyw fath arall o gyllid gan Lywodraeth Cymru nad yw'n ad-daladwy ac sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Mae'n hanfodol inni allu cynorthwyo'r rheiny sydd â'r anghenion mwyaf taer ar hyn o bryd. Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau ariannol sylweddol mae llawer o sefydliadau'n eu hwynebu, felly rydym eisiau cynorthwyo cynifer o geisiadau cymwys ag y gallwn.

Bydd angen i geisiadau fodloni'r meini prawf a gyhoeddir. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn gweld bod nifer y ceisiadau'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael inni. Y meini prawf asesu fydd y brif sail ar gyfer gwneud penderfyniadau. Byddwn yn rhoi pwys arbennig ar sefydliadau sydd yn ein barn ni â hanes cadarn o ddarparu budd diwylliannol a chyhoeddus eglur i bobl Cymru ag sydd â dyheadau i ddatblygu ymhellach trwy eu hymrwymiad i'r Contract Diwylliannol.

Caiff y meini prawf eu hesbonio yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

## Cymhwystra

- Gall sefydliadau wneud cais os ydynt:
  - o Gymru ac â chyfansoddiad ffurfiol fel un o'r canlynol:
  - Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
  - elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
  - Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
  - Cwmni Buddiant Cymunedol (CBC)
  - Cwmni Cyfyngedig drwy Gyfrannau (gweler y meini prawf o ran budd i'r cyhoedd isod)
  - Sefydliad Anghorfforedig
  - Partneriaeth, gan gynnwys Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
  - Prifysgol neu Gorff Cyhoeddus arall sy'n cynnal gweithgarwch diwylliannol
- yn cyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru trwy ddarparu gweithgareddau creadigol y gall pobl eu mwynhau a chymryd rhan ynddynt
- yn gweithio gan fwyaf (50%+) yn un o'r disgyblaethau yr ydym yn eu cynorthwyo (cerddoriaeth, dawns, theatr, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a chymhwysol, celfyddydau cyfun, Celfyddyd Ddigidol)
- yn gallu dangos hanes (yn y tair blynedd ddiwethaf) o ddarparu gweithgarwch celfyddydol hygyrch i'r cyhoedd sydd â budd i'r cyhoedd
- yn cyflawni'r rhan fwyaf o'u gwaith (60%+) yng Nghymru
- Rydym yn cydnabod bod rhai sefydliadau, oherwydd natur eu hamserlen teithio neu gytundebau ariannu gydag asiantaethau eraill, yn cyflawni mwy o waith ar draws gweddill y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol nag yng Nghymru ei hun. Mae'n bosibl y byddwch yn teimlo, fodd bynnag, bod gennych ddadl dros wneud cais i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol ac y gallwch fodloni'n llawn gweddill y meini prawf cymhwystra ac asesu ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer cymorth. Os yw hyn yn wir, cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru er mwyn inni allu dweud wrthych chi a ydych yn gymwys i wneud cais. Rhaid gwneud hyn o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn terfyn amser y gronfa, gan weithredu gyda chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru, a chan feddu ar gyfrif banc yn y

Deyrnas Unedig yn enw'r sefydliad sydd ag o leiaf dau berson a all awdurdodi trafodion (gweler y Canllawiau i gael rhagor o wybodaeth)

- heb fod yn torri unrhyw gytundeb ariannol nac ag unrhyw ofynion heb eu bodloni ar unrhyw gyllid arall oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru neu Lywodraeth Cymru

Os ydych yn sefydliad sy'n cyflawni gweithgarwch er elw, dylech nodi bod y gronfa wedi'i chreu o arian elusennol ac felly ni ellir defnyddio symiau a gewch i gynorthwyo ag unrhyw ran o'ch gweithgarwch sy'n gwneud elw nac i ategu elw masnachol.

Dylech nodi:

Nid yw'r Gronfa hon yn cynorthwyo:

- Unigolion, ymarferwyr ar eu liwt eu hunain ac unig fasnachwyr
- Gwyliau a Digwyddiadau
- Lleoliadau cerddoriaeth a bandiau llawr gwlad, lleoliadau comedi, cyhoeddi, ffilm a theledu, diwydiannau creadigol (Dylech nodi bod bandiau pres yn gymwys i wneud cais i Gronfa Adferiad Diwylliannol Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Gwasanaethau cymorth technegol
- Sinemâu annibynnol (ond byddwn yn cynorthwyo sefydliadau celfyddydol sy'n bodloni'r meini prawf eraill yn y canllawiau hyn ac sy'n cyflwyno ffilmiau fel rhan fach o raglen aml-gelfyddydol)

  Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr 'hunan-ddiffinio' a ydynt yn lleoliad aml-gelfyddydol (sy'n dangos ffilmiau fel rhan o'u darpariaeth gymysg) neu'n sinema yn bennaf (lle mae darpariaeth gelfyddydol arall yn eilaidd neu le nad yw'n cael ei chynnig). Nid ydym wedi rhagnodi y dylid gwneud y penderfyniad hwn ar sail lefelau incwm gan ein bod yn cydnabod bod rhai gweithgareddau'n darparu cyfran fwy o incwm nag eraill. Byddem yn derbyn ceisiadau oddi wrth yr holl leoliadau aml-gelfyddydol onid yw'r lleoliad hwnnw yn ystyried ei hun yn sinema yn bennaf; yn yr achos hwnnw dylai wneud cais i raglen Cronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru.

  Dim ond un cais i naill ai Llywodraeth Cymru neu Gyngor y Celfyddydau y gall sefydliadau ei wneud gan y teimlwn y byddai'n anodd i leoliadau aml-gelfyddydol ddatgyplysu costau cyflwyno ffilmiau oddi wrth gyflwyno gweithgareddau neu raglenni gwaith eraill.

  Os ydych chi'n ansicr ynghylch ble i gyfeirio'ch cais, dylech gysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru ar grantiau@celf.cymru neu dîm Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru.

- Dylai darpariaeth gelfyddydol a reolir yn uniongyrchol gan Awdurdod Lleol, awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n eiddo i Awdurdod Lleol neu y mae Awdurdod Lleol yn rheoli ei weithgarwch wneud cais i Gyllid Caledi Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru.

Mae cymorth i'r sectorau hyn yn cael ei gyllido trwy rannau eraill o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol a Chyllid Caledi Llywodraeth Leol a reolir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gronfa hon yn cydategu mesurau eraill i ymateb i COVID-19 er mwyn cynorthwyo busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol. Ni ddylai ddyblygu'r cymorth hwnnw. Er enghraifft, os ydych yn cael incwm cymorth ffyrlo, ni allwch wneud cais i dalu am wariant y telir amdano eisoes.

Nid yw'r cyllid hwn i ddisodli cyllid rheolaidd gan awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall. Byddem yn disgwyl i gyllid o'r natur hon barhau ar lefelau hanesyddol.

Os ydych yn aelod o **Bortffolio Celfyddydol Cymru** Cyngor y Celfyddydau, dylech nodi, os ydych wedi cael mwy na 55% o'ch trosiant (cyfartaledd 3 blynedd 2016/17 - 2018/19) o gyllid refeniw Cyngor y Celfyddydau, mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwch yn gallu gwneud cais. Dylech anfon y cais hwn at grantiau@celf.cymru gyda sail resymegol glir a chyllideb gysylltiedig. Rhaid gwneud hyn o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn terfyn amser y gronfa. Os bydd gormod o geisiadau i'r gronfa, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio eich canran o gyllid Portffolio Celfyddydol Cymru wrth inni wneud penderfyniad.

Os mai **ysgol** ydych chi, dylech nodi nad yw ysgolion yn gymwys gan na fyddwch yn gallu bodloni'r meini prawf eraill sy'n berthnasol i'r gronfa hon (er enghraifft, y gofyniad i fod yn gweithio yn bennaf (50%+) yn un o'r disgyblaethau rydym yn eu cynorthwyo.

## Am faint allaf i wneud cais?

Grant gwerth hyd at £1.5 miliwn, i'w ddefnyddio erbyn 30 Medi 2021.

Ceir tri throthwy cyllido. Mae lefel y cyllid y gallwch wneud cais amdano yn dibynnu ar lefel derfynol eich trosiant fel y'i nodwyd yn eich cyfrifon blynyddol yn 2018/19.

- Os oedd cyfanswm eich trosiant yn £750,000 neu lai, gallwch wneud cais am hyd at £100,000
- Os oedd eich trosiant rhwng £750,001 a £2,000,000, gallwch wneud cais am hyd at £250,000
- Os oedd eich trosiant yn fwy na £2,000,000, gallwch wneud cais am hyd at £1,500,000

Dylech nodi mai terfyn uchaf yw'r trothwy hwn yn hytrach na tharged i anelu ato. Dylech nodi'n glir yn eich cais pam mae arnoch angen y swm o arian yr ydych wedi gofyn amdano.

Os ydych yn cael arian oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, ni fyddem yn disgwyl i'r ceisiadau fod yn fwy na'r swm arferol o arian y byddech yn ei gael gennym mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

Dylech sicrhau bod eich cais o fewn y lefelau bandio cytunedig. Os ydych yn gwneud cais am fwy na'r swm y mae gennych hawl iddo heb ganiatâd ymlaen llaw, efallai bydd rhaid

inni wrthod eich cais. Os nad ydych yn siŵr o'r swm y gallwch wneud cais amdano, dylech gysylltu â ni.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall sefydliadau ofyn am ganiatâd i wneud cais am swm sy'n fwy na'r trothwyon uchod. Fodd bynnag, dim ond i'r ddwy haen gyntaf mae'r hyblygrwydd hwn yn berthnasol. Dylech anfon y cais hwn at grantiau@celf.cymru gyda sail resymegol glir a chyllideb gysylltiedig. Rhaid gwneud hyn o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn terfyn amser y gronfa. Dylech nodi na fyddwn, o dan unrhyw amgylchiadau, yn ystyried ceisiadau am fwy na'r mwyafswm sef £1.5 miliwn.

Os ydych yn sefydliad sy'n cael arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer rhaglenni gwaith blynyddol, dylech nodi bod y Gronfa Adferiad Diwylliannol wedi'i bwriadu i gynorthwyo sefydliadau sy'n wynebu posibilrwydd gwirioneddol methiant ac ansolfedd cyn 30 Medi 2021. Proses gystadleuol yw cael arian o'r Loteri Genedlaethol ac nid oes gwarant y bydd ceisiadau'n llwyddo. Felly mae'n anodd inni ystyried hyn yn fater o golli incwm o fewn cylch gwaith y Gronfa hon.

Rydym yn cydnabod bod ein harian Loteri, mewn rhai achosion, yn cyfrannu at ran allweddol o hyfywedd ariannol cyffredinol sefydliad.

Felly, os ydych yn sefydliad sydd wedi cael arian y Loteri Genedlaethol oddi wrth Gyngor y Celfyddydau mewn **dwy** o'r **tair** blynedd ariannol ddiwethaf o leiaf (2017/18 i 2019/20), cewch wneud cais i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol i ofyn am gymorth ar gyfer unrhyw gostau busnes sefydlog neu eithriadol. Gallwch hefyd wneud cais am gostau i dalu am bersonél allweddol sy'n cael eu cyflogi ar gyflogres y flwyddyn lawn (os na allant gael eu cynorthwyo gan gynllun 'ffyrlo' Cadw Swyddi y Llywodraeth.

Dylech ystyried yn ofalus cyn gwneud cais er mwyn gwirio a yw'n wirioneddol angenrheidiol. Mae'n bwysig i arian fynd at y rheiny sydd â'r angen mwyaf taer, a gofynnwn ichi gadw hyn mewn cof.

Os yw arian y Loteri Genedlaethol yn cyflawni gweithgarwch prosiect unigol – ac os yw'r rheiny sy'n gweithio ar y prosiect hwnnw yn cael eu hariannu fesul prosiect – bydd angen i'r unigolion hynny wneud cais am arian i unigolion o Gronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru.

## Cymorth Gwladwriaethol a Chymorthdaliadau Cyhoeddus

Mae rheolau yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn y Deyrnas Unedig sy'n cyfyngu ar ddarparu grantiau a manteision economaidd eraill gan awdurdodau cyhoeddus ar sail ddetholus i sefydliadau lle gallai hyn o bosibl ystumio cystadleuaeth a masnach. Adnabyddir rheolau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch hyn fel y Rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol, ac mae'r rhain yn dal i fod yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig at rai dibenion. Ar ôl Brexit, mae'r Deyrnas Unedig hefyd wedi cyflwyno ei rheolau ei hun ar ddarparu cymorthdaliadau (**Rheolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau**).

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Gymorth Gwladwriaethol a chymorthdaliadau yn ddiweddarach yn y Canllawiau hyn.

**Dylech nodi:**

Nid cyngor cyfreithiol yw'r wybodaeth uchod.  Efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r Rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol a Rheolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau.

## Terfynau amser

Mae'r gronfa'n agor ar gyfer ceisiadau ar **ddydd Mawrth 6 Ebrill 2021** a bydd angen i ymgeiswyr fod wedi cyflwyno cais ar-lein heb fod yn hwyrach na'r terfyn amser sef 5.00 pm ar **ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.**

## Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer cymorth?

Mae Cymru'n wynebu nifer fawr o heriau cymdeithasol ac economaidd. Gwaddol y gorffennol yw llawer o'r rhain. Ond wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – mae penderfyniad newydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau na fydd y genhedlaeth hon, trwy ddifaterwch neu ddiofalwch, yn eu gadael yn heriau i'r genhedlaeth nesaf.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn wlad deg, lewyrchus a chynaliadwy, sy'n gwella ansawdd bywyd pobl yn ei **holl** gymunedau ac sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd angen i'r sefydliadau y byddwn yn eu cyllido ddangos sut maent yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnânt, gan gynnwys eu llywodraethiant a'u gweithlu, a thrwy'r gweithgarwch maent yn ei gyflwyno.

Rydym ni eisiau i fwy o bobl mewn cymunedau a lleoedd sy'n cael eu gwasanaethu llai gan y celfyddydau gael cyfleoedd i fwynhau a chymryd rhan yn y gweithgareddau diwylliannol. Rydym yn rhoi pwys arbennig ar sefydliadau sy'n dangos ymrwymiad ymarferol i weithio gydag a thros bobl F/fyddar, anabl a niwrowahanol, pobl dduon, Asiaidd ac Amrywiol yn Ethnig, a siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn disgwyl ichi ddangos yn eich cais sut yr ydych chi, fel sefydliad, wedi ystyried y materion hyn ac yn bwriadu ymdrin â nhw yn y dyfodol.

## Y ‘Contract Diwylliannol’

Disgwylir i’r rheiny fydd yn cael cymorth o’r gronfa hon ymrwymo i ‘Gontract Diwylliannol’ Llywodraeth Cymru.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw Cymru sy’n deg, yn llewyrchus ac yn hyderus, sy’n gwella ansawdd bywyd ei phobl yn holl gymunedau’r wlad. Bwriad datblygu ‘Contract Diwylliannol’ yw annog ymgeiswyr i fabwysiadu ymrwymiadau newydd sy’n sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio gyda phwrpas cymdeithasol. Bydd hyn yn adeiladu ar ‘Gontract Economaidd’ Llywodraeth Cymru sy’n bodoli eisoes.

Mae’r gweithgarwch y byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr ei ddangos yn eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- **Potensial Twf** – datblygu gweithgarwch cadarnhaol i gefnogi cydnerthedd, arallgyfeirio ac addasu gweithrediadau trwy gynhyrchu incwm, rhannu adnoddau a sicrhau’r cyfleoedd mwyaf posibl i gynnwys a chynorthwyo gweithwyr creadigol proffesiynol ar eu liwt eu hunain yng Nghymru.
- **Gwaith Teg** – sicrhau cyfraddau cyflog priodol, amrywiaeth ymysg aelodau byrddau a gweithluoedd er mwyn cynyddu cyfranogiad ledled y sefydliad ac yn y gwaith rydych yn ei gyflawni, gan, gydag ac i bobl Dduon, Asiaidd ac Amrywiol yn Ethnig, pobl F/fyddar, anabl a niwrowahanol, a phobl â nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.
- **Hybu Iechyd, Sgiliau a Dysgu yn y gweithle** – datblygu mentrau sgiliau, dysgu ac iechyd a lles yn y gweithle a’r gymuned, gan gynnwys cefnogi mentrau’r celfyddydau ac iechyd.
- **Cynnydd wrth leihau’ch Ôl Troed Carbon** – mesurau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol a lleihau’ch Ôl Troed Carbon

## Beth allaf i wneud cais amdano?

Gellir defnyddio'r cyllid cyn mis Hydref  2021 i dalu am y gweithgarwch a fwriedir i atal eich sefydliad rhag peidio â gweithredu yn ystod y cyfnod hwn oherwydd effaith ariannol yr argyfwng COVID-19, er enghraifft:

- costau busnes sefydlog fel:
  - staff, gan gynnwys y rhai a fu ar ffyrlo o dan Gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU, ond nid y rheiny sydd ar 'ffyrlo' ar hyn o bryd
  - rhent – ac eithrio gwyliau rhent gan y landlord
  - diogelwch, gwaith cynnal a chadw hanfodol i adeiladau a pheiriannau, yswiriant
  - ffioedd sefydlog am gyfleustodau – dŵr, trydan, nwy, ffôn a'r rhyngrwyd
  - Rhentu offer dan gontract – systemau TG, offer swyddfa
  - Paratoi ar gyfer yr adeg pan fydd sefydliadau'n ail-ddechrau gweithrediadau (gan gynnwys ailstrwythuro staff, ail-fodelu busnes ac ati).
- costau eithriadol fel:
  - costau ynghlwm â chau lleoliadau ond parhau i'w cynnal a chadw ('mothball')
  - costau refeniw staff sy'n gweithio o bell
  - Costau cyfalaf (hyd at £5,000)
  - cyngor cyfreithiol/proffesiynol yn gysylltiedig â'r sefyllfa COVID-19
  - costau untro sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r argyfwng COVID-19 nad yw mesurau cymorth eraill Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru yn eu cynnwys
  - paratoi ar gyfer ail-agor, gan gynnwys addasiadau ffisegol (gweler y nodyn ar derfynau ar gyllid cyfalaf uchod a thrwy'r ffurflen hon i gyd)

## Beth yw’r meini prawf sy’n berthnasol i’r gronfa hon?

Bydd ceisiadau’n cael eu hasesu yn ôl y meini prawf canlynol:

- pa mor fawr a thaer yw’r angen ariannol fel y’i dangosir yn eich cais
- y cyfraniad mae’ch sefydliad yn ei wneud i fywyd diwylliannol a chyhoeddus Cymru trwy ddarparu gweithgareddau creadigol y gall pobl eu mwynhau a chymryd rhan ynddynt
- ansawdd a chryfder eich cynigion ar gyfer mabwysiadu strategaethau blaengar sy’n:
    - gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a’r Gymraeg yng ngweithrediadau’ch sefydliad yn y dyfodol
    - gwreiddio cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yng ngweithrediadau’ch sefydliad yn y dyfodol
    - cynnwys cyfleoedd ar gyfer gweithwyr creadigol ar eu liwt eu hunain ac artistiaid unigol
    - tystiolaeth y telir i gyflogeion yr isafswm cyflog cenedlaethol ac y telir, i weithwyr ar eu liwt eu hunain, o leiaf y ffi isaf y cytunwyd arni gyda’r undeb llafur perthnasol neu’r gymdeithas broffesiynol berthnasol

## Beth yw'r broses ymgeisio?

1. Bydd angen ichi gofrestru ar Borth ein system rheoli grantiau cyn y gallwch wneud cais. (Os ydych wedi cofrestru eisoes, nid oes angen ichi wneud hyn eto.)

2. Gofynnwn ichi lenwi a chyflwyno ffurflen gais ar-lein syml, sydd i'w gweld yn adran grantiau ein yma. Os na allwch gyrchu'r ffurflen ar-lein, neu os oes arnoch angen rhagor o gymorth wrth wneud eich cais, cysylltwch â ni ar grantiau@celf.cymru.

3. Ar ôl inni gael eich cais, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch.

4. Byddwn yn penderfynu a ydych chi'n gymwys trwy adolygu'r wybodaeth a roddir. Efallai y bydd angen inni ofyn am wybodaeth ychwanegol. Os oes unrhyw wybodaeth (fel dogfen lywodraethu neu fanylion banc) yn eisiau ar eich cyfrif, byddwn yn cysylltu â chi. Bydd gennych hyd at 5 diwrnod gwaith i ddatrys unrhyw faterion sydd ar ôl, neu fel arall mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod.

5. Os ydym wedi cadarnhau bod cais yn gymwys, bydd yn mynd ymlaen i'r cam asesu.

6. Byddwn yn adolygu'ch cais a'ch gwybodaeth gyllidebol i sicrhau eu bod yn bodloni ein blaenoriaethau a bod y ffigurau'n briodol i'r math o weithgarwch a'i faint.

7. Os yw'ch cais yn llwyddo, byddwn yn gofyn ichi gadarnhau eich bod yn derbyn y dyfarniad. Os nad ydych wedi llwyddo, byddwn yn esbonio pam.

8. Ar ôl ichi dderbyn eich dyfarniad ac ar ôl inni wirio'ch manylion banc byddwn yn talu yn unol â'r categorïau canlynol:

   - dyfarniad gwerth mwy na £50,000- 45% o swm y dyfarniad o'i dderbyn, 45% canol mis Gorffennaf 2021 ar ôl cael adroddiad diweddaru, a'r 10% sy'n weddill ar ôl cael adroddiad diweddu boddhaol.

   - dyfarniad gwerth llai na £50,000 – 90% o'i dderbyn, a thelir y 10% sy'n weddill ar ôl cael Adroddiad Diweddu boddhaol.

   Os yw'ch amgylchiadau'n galw am amserlen taliadau wahanol, gallwn drafod hyn gyda chi ar ôl cadarnhau'ch dyfarniad

Dylech nodi:

Byddwn yn ymateb i'r holl geisiadau cyn pen 6 wythnos ar ôl y terfyn amser a byddwn yn ceisio ymateb yn gyflymach na hynny lle bo'n bosibl. Os bydd y pandemig COVID-19 yn lleihau ein capasiti, byddwn yn cysylltu â chi i drafod amserlen ddiwygiedig.

## Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb?

Dylech nodi, at ddibenion y cais hwn, bod unrhyw gyfeiriad at 'brosiect' yn cyfeirio at eich cynnig. Cronfa Argyfwng yw'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Ni ddylai'ch cais gynnwys gweithgarwch prosiect.

Mae diwyg y ffurflen gais fel a ganlyn:

1. Gwiriadau cyn cais

   Gwybodaeth ragarweiniol a rhestr wirio cyn cais.

2. Cysylltu â chi

   Gwybodaeth am gysylltu ynghylch y cais. Bydd hyn yn cynnwys eich dewis iaith a gwybodaeth am gyfrif banc.

3. Ynghylch eich prosiect

   Gwybodaeth allweddol am eich prosiect, gan gynnwys teitl y prosiect, dyddiad dechrau a gorffen a gwybodaeth gyllidebol sylfaenol gan gynnwys costau cymorth mynediad.

4. Trosiant

   Beth oedd trosiant eich sefydliad ym mlwyddyn ariannol 2019/20?

   Dywedwch wrthym hefyd am eich sefyllfa bresennol o ran cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys y cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig, ac a fyddwch yn eu defnyddio fel rhan o'r cais hwn, ynghyd â'ch sail resymegol dros wneud hynny. Os ydych yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru, dywedwch wrthym sut rydych yn defnyddio'ch arian gan Gyngor y Celfyddydau i gynnal eich sefydliad yn ystod y cyfnod hwn.

5. Cyfraniad Diwyllianol

   Dywedwch wrthym am gyfraniad eich sefydliad at fywyd diwylliannol a chyhoeddus Cymru a'i hanes o ddarparu cyfleoedd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.

   Beth fu math a phatrwm bras eich gwaith blaenorol? Sut mae'r cyhoedd wedi cael budd o'r hyn yr ydych yn ei wneud? Pa gyflawniadau yn benodol hoffech chi ddweud wrthym ni amdanynt?

6. Sefyllfa Bresennol

Dywedwch wrthym am eich sefyllfa bresennol a sut mae COVID-19 yn parhau i effeithio ar eich busnes.

Dywedwch wrthym beth bynnag y teimlwch y gallwch am yr hyn sydd wedi digwydd i waith eich sefydliad o ganlyniad i COVID -19. (Ni allwn eich cynorthwyo trwy'r gronfa hon os nad yw'r newid yn eich amgylchiadau'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19.)

7. Cyllid y gofynnwyd amdano

Pam mae arnoch angen y swm o arian rydych wedi gofyn amdano?

Sut fyddwch chi'n defnyddio'r arian hwn i gynnal eich sefydliad hyd fis Medi 2021? Rhowch fanylion am yr hyn y gallech ei wneud yn wahanol o ganlyniad i'r arian hwn i'ch galluogi i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn y tymor hirach.

(Ni allwn eich cynorthwyo trwy'r gronfa hon os nad yw'r newid yn eich amgylchiadau'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19.)

Esboniwch sut y cyfrifir yr arian rydych yn gofyn amdano, gan gyfeirio'n benodol (o gymharu â blwyddyn 'cyn Covid') at:

- Swm yr incwm rydych yn disgwyl ei 'golli' dros weddill y cyfnod hyd 30 Medi 2021.
- Unrhyw arbedion cost rydych yn disgwyl eu gwneud (o ganlyniad i lai o weithgarwch, er enghraifft)
- Unrhyw gostau ychwanegol rydych yn disgwyl mynd iddynt o ganlyniad i'r sefyllfa bresennol er mwyn ichi barhau i fod yn weithredol (p'un a yw hyn mewn perthynas â gweithgarwch ai peidio)
- Sut y byddwch yn defnyddio'ch cronfeydd wrth gefn i'ch cynorthwyo
- Pa wariant cyfalaf, os o gwbl, y bydd arnoch ei angen (y mwyafswm y gallwch wneud cais amdano yw £5,000)?

Wrth baratoi'r uchod, dylech ystyried unrhyw gymorth arall rydych yn disgwyl ei gael, fel na fydd unrhyw beth rydych yn ceisio cyllid amdano yn cael ei gyllido dwywaith.

8. Cymorth Ariannol Arall

**Ydych chi'n ceisio cymorth ariannol o unrhyw le arall? Ydych chi'n disgwyl bod yn llwyddiannus?**

Rhowch fanylion unrhyw gyllid argyfwng arall rydych yn disgwyl yn rhesymol ei gael o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Cadw Swyddi.

9. Bodloni ein blaenoriaethau

Dywedwch wrthym am eich strategaethau blaengar i wreiddio'r canlynol yng ngweithrediadau'ch sefydliad yn y dyfodol:

- cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg
- cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol
- cyfleoedd i weithwyr creadigol ar eu liwt eu hunain ac artistiaid unigol

Dywedwch wrthym ni am yr hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd, neu'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol agos, i wella amrywiaeth eich sefydliad a'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw .
**Dylech gadarnhau y telir i'ch cyflogeion yr isafswm cyflog cenedlaethol ac y telir, i weithwyr ar eu liwt eu hunain, o leiaf y ffi isaf y cytunwyd arni gyda'r undeb llafur perthnasol neu'r gymdeithas broffesiynol berthnasol.**

Faint o swyddi cyfwerth ag amser llawn fydd y cyllid hwn yn eu diogelu? (Swydd gyfwerth ag amser llawn yw un o 30 awr neu fwy yr wythnos.)

Os ydych chi'n gweithio gyda gwirfoddolwyr, rhowch amcangyfrif o nifer yr oriau i wirfoddoli y bydd y cyllid hwn yn eu diogelu yn ystod y cyfnod Ebrill 2021 – Medi 2021.

10. Cymorth Pellach

**Bydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn darparu cymorth hyd at ddiwedd mis Medi 2021. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth ar gyfer rhagor o gymorth o dan y Gronfa hon ar ôl y dyddiad hwnnw.**

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod ansicrwydd o hyd ynghylch pryd y bydd gweithgarwch celfyddydol yn ailddechrau ac i ba raddau. Os bydd rhagor o gymorth gan Lywodraethau ar gael, byddwn yn ceisio dod o hyd i ffyrdd priodol o'i ddyrannu cyn gynted ag y bo modd. Er mwyn ein cynorthwyo i gynllunio at y dyfodol, os ydych chi'n barnu y bydd arnoch angen rhagor o gymorth ariannol ar gyfer y cyfnod Hydref 2021 i Fawrth 2022, a allech chi roi ffigwr dangosol yn y blwch isod. Rydym yn

cydnabod bod y ffigwr hwn yn debyg o newid ac yn gofyn ichi roi'ch amcangyfrif gorau ar hyn o bryd. Ni ddylech gynnwys gweithgarwch prosiect arfaethedig yn y ffigwr hwn.

## 11. Cymorth Gwladwriaethol

Er mwyn inni asesu a oes angen inni ystyried goblygiadau Cymorth Gwladwriaethol a Chymorthdaliadau'r Deyrnas Unedig yn fanylach, byddai o gymorth inni pe gallech ddweud wrthym ni a ydych chi'n hyrwyddo'ch sefydliad neu ei weithgareddau y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Os ydych, dywedwch wrthym ni ba ganran o'ch cynulleidfa sy'n dod o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig fel arfer (gan gynnwys eich cynulleidfa wrth ichi berfformio y tu allan i'r Deyrnas Unedig ond gan eithrio unrhyw olygon ffrydio am ddim). Efallai bod gennych amcangyfrif neu y gallwch roi inni gyfartaledd o ffigyrau blynyddoedd blaenorol.

## 12. Ffurf gelf

Gwybodaeth allweddol am wahanol ffurfiau celf eich prosiect.

## 13. Mathau o weithgarwch

Gwybodaeth allweddol am wahanol fathau o weithgarwch eich prosiect

## 14. Targedau

Gwybodaeth allweddol am wahanol dargedau'ch prosiect arfaethedig, gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau, gweithdai a chynulleidfaoedd/mynychwyr.

## 15. Iaith

Byddwn yn gofyn ichi sebonio'r effaith rydych yn meddwl y bydd y prosiect hwn yn ei chael ar y Gymraeg:

Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral

## 16. Lleoliad

Yn yr adran hon, rydym yn gofyn ichi ddweud wrthym ni ble y bydd gweithgarwch eich prosiect yn digwydd.

## 17. Cydraddoldeb

Yn yr adran hon byddwn yn gofyn ichi roi inni wybodaeth monitro cydraddoldeb ar gyfer eich prosiect.

## 18. Atodiadau

### Eich gwybodaeth gyllidebol

Rhaid ichi gyflwyno'r wybodaeth ar y templedi a lawrlwythir sydd ar gael yn ein ffurflen gais ac, at ddibenion y cais hwn, dylai fod ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2021.

### Contract Diwylliannol

Esiampl:
https://businesswales.gov.wales/cy/contract-diwylliannol-atodiad

Templed:
https://businesswales.gov.wales/sites/main/files/documents/CONTRACT%20DIWYLLIANNOL%20Cymraeg_0.docx

## Pa dystiolaeth arall fydd yn ofynnol?

- Tystiolaeth fod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol sy'n bodloni ein gofynion.
- Tystiolaeth fod gan eich sefydliad strwythur llywodraethiant sy'n bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer y gronfa hon.

Gweler isod i gael mwy o wybodaeth.

## Adroddiadau diweddu

Byddwn yn cysylltu â chi tua diwedd mis Medi 2021i ofyn ichi ddarparu inni Adroddiad Diweddu yn esbonio sut yr ydych wedi defnyddio'r cyllid.  Ymysg y pethau y bydd gennym ddiddordeb arbennig i glywed amdanynt fydd:

- Nifer y swyddi a ddiogelwyd
- Copi o'ch cynllun ailagor
- Adroddiad o'ch cynnydd wrth helpu i gyflawni'r 'Contract Diwylliannol'.

Gofynnir ichi gynnwys sail resymegol dros unrhyw wahaniaethau i'ch cais gwreiddiol

Hefyd bydd angen ichi roi adroddiad llawnach ar sut yr ydych wedi cyflawni'r Contract Diwylliannol ar ddyddiad diweddarach yn 2021/22, ynghyd â chadarnhad o nifer y swyddi a ddiogelwyd a nifer yr unigolion/gweithwyr ar eu liwt eu hunain a gynorthwywyd.

Byddwn yn asesu sut yr ydych wedi cyrraedd y targedau yn eich contract diwylliannol, gan gynnwys y rhai a nodasoch wrth lenwi'ch ffurflen gais.  Os nad ydych wedi cyrraedd y targedau mae'n bosibl y byddwn yn hawlio'n ôl rywfaint o'r cyllid a ddyfarnwyd neu'r cwbl ohono.

## Manylion Banc

Rhaid i'ch cyfrif banc enwebedig fodloni'n llawn yr amodau a nodir yn ein canllawiau ar-lein yma

## Trefniadau Llywodraethiant y Sefydliad

Dylech edrych ar ein canllawiau ar wahân ynghylch Cymhwystra a Llywodraethiant. Bydd y rhain yn esbonio pa ddogfennau y bydd yn ofynnol ichi eu llwytho i fyny cyn gwneud eich cais.

**Nid yw Awdurdodau Lleol yn gymwys i wneud cais i'r Gronfa hon. Rhaid i ymgeiswyr sydd o dan berchnogaeth uniongyrchol Awdurdodau Lleol wneud cais yn uniongyrchol i Gyllid Caledi Llywodraeth Leol am gymorth.**

## Ynghylch Cymorth Gwladwriaethol a Chymorthdaliadau Cyhoeddus

Mae rheolau yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn y Deyrnas Unedig sy'n cyfyngu ar ddarparu grantiau a manteision economaidd eraill gan awdurdodau cyhoeddus ar sail ddetholus i sefydliadau lle gallai hyn o bosibl ystumio cystadleuaeth a masnach. Adnabyddir rheolau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch hyn fel y Rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol, ac mae'r rhain yn dal i fod yn berthnasol yn y Deyrnas Unedig at rai dibenion. Ar ôl Brexit, mae'r Deyrnas Unedig hefyd wedi cyflwyno ei rheolau ei hun ar ddarparu cymorthdaliadau (**Rheolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau**).

Gellir gweld rhagor o ganllawiau ar y ffordd mae'r rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol a chymorthdaliadau'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig yma a dylai ymgeisydd fodloni ei hun y bydd y grant arfaethedig yn cydymffurfio â'r Rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol (lle bo'n berthnasol) a Rheolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau.

Mae'r Rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol a Rheolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau yn rheoleiddio'r broses o ddarparu cymorthdaliadau cyhoeddus i sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgareddau economaidd (a all gynnwys, weithiau, y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant). Os nad yw grant arfaethedig oddi wrth y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn gyfystyr â 'chymhorthdal', gellir ei ddarparu heb orfod cydymffurfio â'r Rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol neu Reolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau. Ni fydd grant yn gyfystyr â 'chymhorthdal' os gellir dangos na fydd y derbynnydd yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau masnachol (gan gynnwys cynhyrchu incwm o berfformiadau). Hyd yn oed os yw'r derbynnydd yn codi ffi am ei weithgareddau, efallai y bydd yn bosibl darparu'r grant heb iddo fod yn gymhorthdal os yw'r ffi yn 'rhan fach iawn' yn unig o'r gwir gostau.

Ni fydd grant yn gymhorthdal os na fydd yn cael effaith ar fasnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ac, er mai prawf caeth yw hwn, mae'n debygol mai dim ond grantiau i'r sefydliadau celfyddydol a diwylliannol sy'n fawr ac yn enwog neu sy'n hyrwyddo eu gweithgareddau'n helaeth yn yr Undeb Ewropeaidd fydd yn dod o fewn cwmpas y Rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol neu Reolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau.

Gellir darparu grantiau sy'n 'gymorthdaliadau' o hyd o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, os caiff amodau penodol eu bodloni.

1. **Swm cyfyngedig o gymorth o dan Fframwaith Dros Dro y Deyrnas Unedig**
   Er bod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, wrth ddarparu grantiau o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, efallai y bydd modd dibynnu ar y Fframwaith Dros Dro COVID-19 i Awdurdodau'r Deyrnas Unedig (**Fframwaith Dros Dro y Deyrnas Unedig**) a gymeradwywyd cyn diwedd cyfnod pontio Brexit o dan drefniant y Comisiwn Ewropeaidd, y Fframwaith Dros Dro ar gyfer Mesurau Cymorth Gwladwriaethol i Gynorthwyo'r Economi yn ystod yr achosion presennol o COVID-19 (**Fframwaith Dros Dro yr Undeb Ewropeaidd**).

Mae Cynllun Fframwaith Dros Dro y Deyrnas Unedig yn caniatáu dyfarnu Cymorth Gwladwriaethol hyd at €800,000 ar yr amod bod rhai gofynion yn cael eu bodloni gan gynnwys:

- nad yw cyfanswm y cymorth o'r math hwn a gafodd y sefydliad o dan Fframwaith Dros Dro y Deyrnas Unedig yn fwy na'r trothwy o €800,000 (oddeutu £691,000 ym mis Mawrth 2021);
- nad yw cyfanswm y cymorth o'r math hwn a gafodd y sefydliad o dan Fframwaith Dros Dro yr Undeb Ewropeaidd yn fwy na'r trothwy o €1,800,000 (oddeutu £1,555,000 ym mis Mawrth 2021);
- bod pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar y derbynnydd; ac nad oedd y derbynnydd yn "gwmni mewn trafferthion" ar 31 Rhagfyr 2019

2. Esemptiad ar gyfer cymorthdaliadau o werth bach
Mae esemptiad i Reolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau ar gyfer rhai cymorthdaliadau o werth bach. Mae hyn yn caniatáu darparu cymorthdaliadau hyd at swm trothwy diffiniedig i dderbynnydd mewn unrhyw un cyfnod treigl o dair blynedd. Mae'r swm trothwy yn amrywio gan ddibynnu ar werthoedd arian cyfred ac mae oddeutu £350,000. Nid yw Rheolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau yn berthnasol os nad yw cyfanswm y cymorthdaliadau a roddir i dderbynnydd (sydd, yn achos grŵp o gwmnïau, yn golygu y cyfanswm i'r grŵp cyfan) o dan yr esemptiad hwn mewn unrhyw dair blynedd ariannol olynol yn fwy na'r swm trothwy. Er mwyn dibynnu ar yr esemptiad hwn, bydd angen i'ch sefydliad (gan gynnwys unrhyw grŵp busnes ehangach) gadarnhau bod cyfanswm unrhyw gymorthdaliadau (gan gynnwys swm y grant y gwneir cais amdano) a gafwyd o dan yr esemptiad hwn, ac o dan yr hen Esemptiad Cymorth Gwladwriaethol *De Minimis*, naill ai oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru neu oddi wrth unrhyw gyllidwr arall, yn eich blwyddyn ariannol bresennol a'ch dwy flynedd ariannol flaenorol, yn £350,000 neu lai.

3. Erthygl 53 o'r Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol
Os cafodd eich sefydliad grant oddi wrth y Gronfa Adferiad Diwylliannol cyn 31 Rhagfyr 2020 ac y rhoddwyd y grant hwnnw gan ddefnyddio'r esemptiad bloc ar gyfer cymorth i ddiwylliant a chadwraeth treftadaeth (gweler pennod 1 ac erthygl 53 o'r Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol), efallai y bydd yn bosibl dibynnu ar yr esemptiad bloc hwnnw ar gyfer unrhyw grant arfaethedig arall am yr un gweithgareddau ar yr amod bod holl ofynion yr esemptiad bloc yn dal i gael eu bodloni.

Nid cyngor cyfreithiol yw'r wybodaeth uchod. Efallai y bydd sefydliadau eisiau cael cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol a Rheolau'r Deyrnas Unedig ar Gymorthdaliadau, ond nid yw hyn yn ofyniad i ymgeiswyr.

## Arweiniad ar Gyflogau Teg

**Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol** yw'r isafswm cyflog yr awr y mae gan bron pob gweithiwr hawl iddo o dan y gyfraith. Ym mis Ebrill 2016, cyflwynwyd Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr 25 oed a hŷn ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yr Isafswm Cyflog yn dal i fod yn berthnasol i weithwyr 24 oed ac iau. Mae'n drosedd i gyflogwyr beidio â thalu i rywun yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol, fel bo'n briodol, neu i ffugio cofnodion tâl. Os nad ydych chi'n talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol, ni allwn ystyried eich cyllido.

Mae rhagor o arweiniad ar gyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gael ar: https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates

**Y Cyflog Byw:** Y Cyflog Byw yw cyfradd yr awr wirfoddol a bennir gan y Living Wage Foundation (www.livingwage.org.uk) ar sail costau byw. Mae'r Living Wage Foundation yn annog sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig, ym mhob sector ac o bob maint, i ddod yn gyflogwyr cyflog byw achrededig.

https://businesswales.gov.wales/news-and-blogs/news/living-wage-foundation

| Pwy/Dolen | Ar gyfer |
|---|---|
| a-n | The Artists Information Company ar gyfer artistiaid gweledol |
| AOP | Association of Photography |
| BECTU | The Broadcasting, Entertainment, Communications and Theatre Union ar gyfer staff technegol |
| Equity | Ar gyfer actorion, cantorion a dawnswyr |
| ISM | Incorporated Society of Musicians |
| itc | Independent Theatre Council ar gyfer ymarferwyr theatr |
| Musicians' Union | Musicians' Union ar gyfer cerddorion |
| WGGB | The Writers' Guild of Great Britain |
| UK Theatre | Ar gyfer staff theatr a cherddorion |

## Beth os oes gen i gwestiwn?

Mae natur y gronfa hon yn dibynnu ar uniondeb y ceisiadau. Dylech sicrhau eich bod yn ateb yr holl gwestiynau'n llawn, yn glir ac yn onest. Os byddwch yn ateb cwestiwn gyda gwybodaeth anghywir, mae'n bosibl y bydd angen inni hawlio cyllid yn ôl ar ddyddiad diweddarach neu gymryd camau eraill os byddwn yn amau twyll.

Os ydych chi eisiau gwybod a ydych chi neu'ch cais yn gymwys, neu os hoffech drafod cwestiynau eraill am y gronfa hon, dylech gysylltu â'n Gwasanaeth Ymholiadau.

Gallwch wneud hyn trwy e-bost, trwy ein gwefan neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Gwefan:** Llenwir ffurflen ar ein gwefan

**Twitter:** Anfon trydariad atom @celfcymru

Ein nod yw ymateb i bob ymholiad yn fuan iawn.

Os ydych chi eisiau i ni eich ffonio'n ôl, rhowch eich rhif cyswllt a byddwn yn trefnu cysylltu â chi cyn gynted ag sy'n bosibl.

## Rhyddid gwybodaeth

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i fod mor agored ag sy'n bosibl. Rydym yn credu bod gan y cyhoedd hawl i wybod sut yr ydym yn gwario arian cyhoeddus a sut yr ydym yn gwneud ein penderfyniadau cyllido. Gallwch weld manylion ein polisi yma.

Rydym wedi ein rhestru fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. O dan y gyfraith, mae'n bosibl y bydd rhaid inni roi eich dogfennau ymgeisio a gwybodaeth am ein hasesiad i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn i'w gweld o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'n bosibl na fyddwn yn rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau mae un neu ragor o'r esemptiadau o dan y Ddeddf yn ymwneud â nhw. Gweler y wefan Rhyddid Gwybodaeth i gael gwybod am ryddid gwybodaeth yn gyffredinol a'r esemptiadau.

## Gweithdrefn Gwyno

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd yr ydym wedi ymdrin â'ch cais, gallwch weld copi o'n Gweithdrefn Gwyno ar ein gwefan yma.

Nodwch na allwch gwyno oni bai eich bod yn credu nad ydym wedi dilyn ein proses gyhoeddedig wrth ymdrin â'ch cais. Ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## Atal Twyll

Bydd gwybodaeth a gesglir trwy'r broses ymgeisio yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll, a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio hunaniaeth.  Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y gellid defnyddio'ch gwybodaeth yn ein Polisi Preifatrwydd isod.

## Diogelu Data

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o rwymedigaethau a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'r Rheoliad yn rheoleiddio'r ffordd yr ydym yn casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau chi mewn perthynas â'r ffordd yr ydym yn rheoli'ch data.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn ein Polisi Preifatrwydd cyhoeddedig.

Ni fyddwn yn datgelu data personol na data personol sensitif, (fel y diffinnir termau yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) heb eich cydsyniad oni fo rhwymedigaeth drechol yn berthnasol (e.e. rhwymedigaeth gyfreithiol).